

Adfyfyrio: Beth? Felly beth? Beth nawr?

(Wedi ei seilio ar Borton (1970s) a'i ddatblygu gan Driscoll (1994, 2000, 2007))

Gall y tri chwestiwn craidd hyn fod yn ddefnyddiol iawn wrth helpu myfyrwyr i adfyfyrio ar eu profiad dysgu a'u datblygiad astudio. Cysylltodd Driscoll y tri chwestiwn allweddol hyn gyda phrofiad cylch dysgu ac fe ddatblygodd gwestiynau fydd yn eich helpu i gwblhau'r cylch dysgu hwnnw.

Beth...?

- yw diben ailymweld â'r profiad dysgu hwn?
- ddigwyddodd?
- wnaeth myfyrwyr eraill oedd ynghlwm wrth y broses ddysgu/astudio hon?
- welais i neu beth wnes i yn ystod y broses ddysgu/astudio hon?
- oedd fy ymateb i'r broses ddysgu/astudio?

Felly beth...?

- oeddwn i'n ei deimlo/feddwl am y broses ddysgu/astudio hon ar y pryd?
- ydw i'n ei deimlo/feddwl nawr? Ydw i'n teimlo'n wahanol am y broses ddysgu/astudio?
- oedd effaith yr hyn wnes i neu'r hyn na wnes i yn ystod y broses ddysgu/astudio?
- oedd yr agweddau cadarnhaol a ddaeth o'r prosesau?
- oedd yr agweddau negyddol a ddaeth o'r prosesau?
- ydw i wedi sylwi arno o ran fy mhrofiad dysgu a/neu fy ymddygiad astudio drwy gamu'n ôl ac adfyfyrio ar yr hyn a wnes i/na wnes i?
- oedd pobl eraill yn ei feddwl am fy ymatebion/gweithredoedd ar y pryd?
- yw effaith dychwelyd at y digwyddiadau ar fy ymddygiad dysgu/astudio?


Gallech hefyd ystyried a oedd eich teimladau chi'n wahanol i deimladau myfyrwyr eraill. Oeddech chi'n rhy bryderus neu'n bwyllog? Oeddech chi'n bryderus am y profiad dysgu/astudio yn gyffredinol neu oedd agweddau penodol yn effeithio'n sylweddol arnoch chi, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol?

Beth Nawr...?

- yw'r ymhlygiadau ar fy nghyfer i ac eraill sydd wrth ynghlwm wrth fy mhrosesau dysgu, ar sail y prosesau rwyf wedi eu disgrifio a'u dadansoddi?
- yw'r gwahaniaeth y gellir ei wneud os dewisaf wneud rhywbeth?
- yw'r gwahaniaeth y gellir ei wneud os dewisaf wneud dim byd?
- yw'r prif bethau rwyf wedi eu dysgu o adfyfyrio ar brosesau dysgu/astudio?
- yw'r cymorth y dylwn ofyn amdano/sydd arnaf ei angen i fy helpu i wella fy mhrosesau dysgu/astudio?
- yw'r agweddau y dylwn fynd i'r afael â nhw gyntaf a pham?

Gallech hefyd ystyried a alwch ddod o hyd i wybodaeth i'ch helpu i wneud yn fawr o'ch potensial dysgu? Sut gallwch chi addasu eich strategaethau dysgu i ymdopi'n fwy effeithiol gyda'ch aseiniad nesaf? Beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni a sut gallwch wneud hyn?

Profiad dysgu



Cyfeiriadau a darllen pellach:

Addaswyd o: Prifysgol Nottingham (2009) *Driscoll (by Borton)*. Ar gael o http://www.nottingham.ac.uk/nmp/sonet/rlos/placs/critical_reflection/models/driscoll.html (Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2011)